



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Digwyddiadau Cymru: Meini Prawf Asesu

### Digwyddiadau Mawr, Digwyddiadau Unigryw a Digwyddiadau sy'n Tyfu

Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Digwyddiadau Mawr, 'Digwyddiadau Cymru', ym mis Medi 2010. Yn sgil yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, rydym wedi mynd ati i adolygu'r strategaeth fel y gallwn ni ymateb yn effeithiol i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid.

Yn unol ag ymgyrch Llywodraeth Cymru i gryfhau'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy, mae'r meini prawf asesu a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer pob categori o ddigwyddiadau a gefnogir wedi'u mireinio a'u cryfhau er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar gefnogi'r digwyddiadau hynny sy'n dangos eu bod yn gallu ysgogi mentrau newydd a thwf busnesau, codi proffil rhyngwladol Cymru yn sylweddol a/neu wella enw da Cymru yn y tymor hir.

Mae'r meini prawf a'r DPA diwygiedig wedi'u hamlinellu ar y tudalennau canlynol, ynghyd â diffiniadau o'r digwyddiadau, a dylid eu darllen ochr yn ochr â Nodyn Cyfarwyddyd Gwneud Cais am Gyllid Digwyddiadau Cymru.

### Digwyddiadau Mawr

Digwyddiadau peripatetig sy'n cael eu diffinio yn ôl eu maint a'u hapêl o ran denu a dylanwadu ar gynulleidfaoedd rhyngwladol mawr a sicrhau sylw sylweddol yn y cyfryngau, yn ogystal â chael effaith economaidd a dod â nifer sylweddol o ymwelwyr i'r gyrchfan. Mae modd iddynt gael eu gwyllo gan gynulleidfaoedd teledu ledled y byd a denu noddwyr rhyngwladol sylweddol. Gallant gael effaith gadarnhaol o ran dylanwadu ar garfanau penodol o'r farchnad a newid agweddau ac ymddygiad. Nid Cymru sy'n berchen ar y digwyddiadau rhyngwladol hyn a byddai'n rhaid iddi gael ei dewis fel lleoliad yn erbyn cystadleuaeth ryngwladol. Rhai enghreifftiau o'r math yma o ddigwyddiad yw Gêm Brawf y Lludw, Gêm Derfynol Cwpan Heineken, Pencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn Prydain a WOMEX.

### Digwyddiadau Unigryw

Gall y digwyddiadau hyn hefyd fod â dimensiwn rhyngwladol cryf, ond yn wahanol i'r categori digwyddiadau mawr a ddisgrifir uchod, caiff y rhain eu cynnal dro ar ôl tro. Maent naill ai'n unigryw i Gymru neu'n neilltuol Gymreig o ran eu natur, ac maent yn adlewyrchu ein diwylliant, ein traddodiadau a'n gwerthoedd. Maent yn gwella delwedd a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru ac yn rhoi profiad o ansawdd uchel i bobl Cymru ac i ymwelwyr. Mae Digwyddiad Unigryw llwyddiannus yn gallu parhau i ysbrydoli ac ail-ddenu eu cynulleidfaoedd. Enghreifftiau fyddai digwyddiadau sydd wedi ennill eu plwyf megis Gŵyl y Gelli, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Hanner Marathon Caerdydd, Gŵyl y Dyn Gwyrd a Wakestock.

## DPA Digwyddiadau Mawr a Digwyddiadau Unigryw

Maes yr Effaith	Meini Prawf	Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)
Economaidd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno manteision economaidd sylweddol i Gymru trwy fentrau newydd a thwf busnesau</li> <li>• Galluogi pobl i ddatblygu sgiliau bywyd i gefnogi economi fodern, greadigol</li> <li>• Hybu twristiaeth mewn marchnadoedd allweddol</li> <li>• Denu llawer o ymwelwyr i Gymru o'r DU a thu hwnt</li> <li>• Cyflwyno a hyrwyddo Cymru fel lle penigamp i gynnal digwyddiadau (rhyngwladol) mawr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu creu (neu eu cynnal) yng Nghymru</li> <li>• Cyfraniad ychwanegol net (£) at economi Cymru (gan ddefnyddio cyfrifiannell economaidd IMPACTS), gan gynnwys manteision economaidd i'r ardal leol/cyflenwyr lleol</li> <li>• Ymgysylltu a rhyngweithio gyda busnesau priodol mewn perthynas â, neu mewn digwyddiadau trwy gyfleoedd rhwydweithio</li> <li>• Nifer y lleoliadau i fyfyrwyr a chyfleoedd interniaeth o safon sy'n cael eu creu</li> <li>• Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli sy'n cael eu creu</li> <li>• Buddsoddiad arall yn y sectorau preifat a chyhoeddus</li> <li>• Nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i Gymru (y DU a thramor) ac am faint maen nhw'n aros</li> </ul>
Proffil ac enw da rhyngwladol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo brand Cymru mewn marchnadoedd targed a sectorau busnes allweddol yn y DU a thramor</li> <li>• Cyflwyno a hyrwyddo Cymru fel lle heb ei ail i gynnal digwyddiadau mawr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylw ar deledu a/neu orsafoedd radio Cymru, y DU a'r byd (mae Gwerth Hysbysebu yn cael ei fesur mewn oriau/munudau ar rwydweithiau'r DU a thramor)</li> <li>• Sylw ym mhapurau Cymru, y DU a'r byd, gan gynnwys cyfryngau digidol (sy'n cael ei</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi cyfle i artistiaid ac athletwyr o Gymru gymryd rhan mewn digwyddiadau rhyngwladol mawr a/neu berfformio i gynulleidfaoedd rhyngwladol</li> <li>• Darparu profiadau heb eu hail i gynulleidfaoedd Cymru</li> </ul>	<p>fesur yn ôl nifer yr erthyglau/modfeddi colofn/maint y gynulleidfa);</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylw ar ryngrwyd y DU a'r byd, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol (sy'n cael ei fesur yn ôl nifer yr ymwelwyr unigryw â'r wefan a'u lleoliad daearyddol)</li> <li>• I ba raddau mae'r digwyddiad yn cael effaith gadarnhaol ar werth Brand Cymru</li> </ul>
Cymdeithasol-ddiwylliannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ehangu a denu mwy i gyfrannu yn y celfyddydau neu chwaraeon</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer a natur y rhaglenni allgymorth a'r digwyddiadau cyfranogi cysylltiedig</li> </ul>
Polisiau statudol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo a chefnogi cyfle cyfartal</li> <li>• Hyrwyddo, cefnogi a defnyddio'r Gymraeg</li> <li>• Hyrwyddo a chefnogi dulliau rheoli cynaliadwy a lleihau gwastraff trwy leihau, aildefnyddio ac ailgylchu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi Cyfle Cyfartal (sy'n cynnwys cyflogaeth, denu pobl i ddigwyddiadau ac ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol)</li> <li>• Polisi Iaith Gymraeg (sy'n cynnwys perfformiadau/digwyddiadau, marchnata a chyfathrebu a denu mwy o bobl i ddigwyddiadau)</li> <li>• Polisi Digwyddiadau Cynaliadwy (sy'n cynnwys camau a gymerwyd i ddilyn canllawiau BS ISO 20121 neu i ennill achrediad ffurfiol)</li> </ul>

## Digwyddiadau sy'n Tyfu

Digwyddiadau llai yw'r rhain - rhai newydd yn aml - gydag ôl troed a ffocws sy'n rhanbarthol, yn lleol neu'n seiliedig ar sector penodol ac sy'n dangos yr uchelgais neu'r potensial i esblygu a thyfu a dod yn Ddigwyddiad Mawr neu'n Ddigwyddiad Unigryw yng Nghymru. Gall y digwyddiadau hyn hefyd weithredu fel cerrig milltir o ran hybu capasiti, profiad a hygredd Cymru fel cyrchfan, a gallant fod yn bwysig o ran braenaru'r tir ar gyfer cynnal digwyddiadau mawr wedi'u targedu. Elfen bwysig o fuddsoddiad yr Uned Digwyddiadau Mawr yw creu a meithrin digwyddiadau cynhenid, a thrwy hynny gefnogi ymdrechion i ddatblygu diwydiant digwyddiadau cryf a chynaliadwy yng Nghymru.

Bydd meini prawf a system bwysoli ychydig yn wahanol yn cael eu defnyddio i asesu digwyddiadau sy'n tyfu, gan na fydd gan ddigwyddiadau llai, o'u natur, yr un effaith economaidd na'r un proffil rhyngwladol. Er hynny, bydd disgwyl iddynt sicrhau canlyniadau sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli, hyfforddiant a sgiliau eraill a fydd, yn eu tro, yn helpu i greu amgylchedd sy'n ysgogi a chefnogi mentrau newydd a thwf. Mae enghreifftiau'n cynnwys Ffocws Cymru, Gŵyl Chwedleua Beyond the Border a Gŵyl Gomeddi Machynlleth.

## DPA Digwyddiadau sy'n Tyfu

Maes yr Effaith	Meini Prawf	Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)
Economaidd	<ul style="list-style-type: none"><li>Sbarduno mentrau newydd a thwf busnesau, gan gynnwys cefnogi swyddi hirdymor o safon uchel</li><li>Galluogi pobl i ddatblygu sgiliau bywyd i gefnogi economi fodern, greadigol</li><li>Cefnogi datblygiad diwydiant digwyddiadau cryf a chynaliadwy yng Nghymru</li><li>Dangos y gallu i gynyddu niferoedd ymwelwyr o farchnadoedd y DU a marchnadoedd ehangach</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Nifer y busnesau newydd neu'r swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu creu (neu eu cynnal) yng Nghymru</li><li>Cyfraniad ychwanegol net (£) at economi Cymru (gan ddefnyddio cyfrifiannell economaidd IMPACTS), gan gynnwys manteision economaidd i'r ardal leol/cyflenwyr lleol</li><li>Nifer y lleoliadau i fyfyrwyr a chyfleoedd interniaeth o safon sy'n cael eu creu</li><li>Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i Gymru (y DU ac ehangach)</li></ul>

<p>Proffil ac enw da rhyngwladol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo brand Cymru mewn marchnadoedd targed domestig allweddol</li> <li>• Rhoi cyfle i artistiaid ac athletwyr o Gymru arddangos a datblygu eu doniau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylw ar deledu a/neu orsafoedd radio Cymru a'r DU (oriau/munudau)</li> <li>• Sylw yng nghyfryngau Cymru a'r DU (gan gynnwys cyfryngau digidol) (nifer yr erthyglau/modfeddi colofn/cyrhaeddiad cynulleidfa);</li> <li>• Sylw ar ryngrwyd y DU a'r byd (a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol) (nifer yr ymwelwyr unigryw â'r wefan a'u lleoliad daearyddol)</li> <li>• I ba raddau mae'r digwyddiad yn cael effaith gadarnhaol ar werth Brand Cymru</li> </ul>
<p>Cymdeithasol-ddiwylliannol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ehangu a denu mwy i gyfrannu yn y celfyddydau neu chwaraeon</li> <li>• Hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli a chamau gwirfoddol lleol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer a natur y rhaglenni allgymorth a'r digwyddiadau cyfranogi cysylltiedig</li> <li>• Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli sydd wedi'u creu</li> </ul>
<p>Polisiau statudol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo a chefnogi cyfle cyfartal</li> <li>• Hyrwyddo, cefnogi a defnyddio'r Gymraeg</li> <li>• Hyrwyddo a chefnogi dulliau rheoli cynaliadwy a lleihau gwastraff trwy leihau, aildefnyddio ac ailgylchu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi Cyfle Cyfartal (sy'n cynnwys cyflogaeth, denu mwy o bobl i ddigwyddiadau ac ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol)</li> <li>• Polisi Iaith Gymraeg (sy'n cynnwys perfformiadau/digwyddiadau, marchnata a chyfathrebu a denu mwy o bobl i ddigwyddiadau)</li> <li>• Polisi Digwyddiadau Cynaliadwy (sy'n cynnwys camau a gymerwyd i ddilyn canllawiau BS ISO 20121 neu i</li> </ul>

		ennill achrediad ffurfiol)
--	--	----------------------------